Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

4 Medi 2020

Annwyl Mark

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) ("Prif Reoliadau")**
**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 ("Rheoliadau Rhif 2 Rhif 5")**

Gwnaethom ystyried Rheoliadau Rhif 2 Rhif 5 yn ein cyfarfod ar 24 Awst 2020 a gosod ein hadroddiad yr un diwrnod. Ers paratoi ein hadroddiad, rydym wedi dod yn ymwybodol o ganllawiau Llywodraeth Cymru *Cadw cofnodion ynghylch staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr: profi, olrhain, diogelu*, sy'n codi'r pryderon canlynol.

Mae'r canllawiau yn dweud ei bod hi'n "ofyniad cyfreithiol" i'r busnesau canlynol gasglu a chadw gwybodaeth gyswllt cwsmeriaid:

- Lletygarwch, gan gynnwys tafarndai, bariau, bwytai a chaffis.
- Sinemâu.
- Gwasanaethau cysylltiad agos, gan gynnwys siopau trin gwallt a siopau barbwr, gwasanaethau harddwch, gwasanaethau tatŵio, therapyddion chwaraeon a thylino.
- Pyllau nofio, stiwdios ffitrwydd o dan do, campfeydd, sbâs, a chanolfannau neu gyfleusterau hamdden eraill o dan do.

Fel y gwyddoch, nid yw'r Prif Reoliadau yng Nghymru yn dweud yn benodol bod gofyn i'r busnesau hyn gasglu a chadw gwybodaeth i gwsmeriaid. Yn hytrach, rhaid i'r busnesau hyn (fel pob busnes arall, gweithle, adeilad agored ac ati) gymryd mesurau rhesymol at ddibenion lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â choronafeirws yn yr adeilad neu at y diben o leihau lledaeniad coronafeirws gan y rhai sydd wedi bod yn yr adeilad. Er y gallai fod yn rhesymol yn y mwyafrif helaeth o achosion i'r busnesau a restrir uchod gasglu a chadw gwybodaeth am gwsmeriaid, nid ydym yn argyhoeddedig bod hyn yn gyfystyr â rhwymedigaeth gyfreithiol gyffredinol ar bob busnes o'r fath. Rhaid penderfynu ar bob achos yn rhinwedd ei ffeithiau i benderfynu beth sy'n rhesymol, yn unol â'r rheoliadau.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Hefyd, mae'r canllawiau'n trafod casglu a chadw gwybodaeth yng nghyd-destun y diben o leihau'r risg y bydd unrhyw berson sydd wedi bod ar safle rhywun yn lledaenu'r feirws. Fodd bynnag, mae rheoliad 12(2A) o'r Prif Reoliadau yn dweud y gellir casglu a chadw gwybodaeth am gwsmeriaid er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â choronafeirws ar y safle.

Yn sgil yr uchod, byddem yn ddiolchgar am gadarnhad a oes angen diwygio'r Prif Reoliadau neu'r canllawiau.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English